Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT
029 2085 9696

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT
www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

# Cylchlythyr | Circular

# Canllawiau Diwygiedig ar Siarteri Myfyrwyr 2022

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 04 Gorffennaf 2022 |
| **Cyfeirnod:** | W22/20HE |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch<br>Penaethiaid colegau addysg bellach a reoleiddir a/neu a ariennir yn uniongyrchol<br>Undebau Myfyrwyr Cymru |
| **Ymateb erbyn:** | Dim angen ymateb |
| **Cyswllt** | Enw: Nicola Hunt<br>Ffôn: 029 2085 9735<br>E-bost: nicola.hunt@hefcw.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys canllawiau diwygiedig CCAUC ar siarteri myfyrwyr, ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd drwy gylchlythyr W21/41HE.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn nodi canllawiau diwygiedig CCAUC ar Siarteri Myfyrwyr, ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd drwy gylchlythyr W21/41HE.

## Y Cefndir

2. Ers 2012/13, mae CCAUC wedi'i gwneud hi'n ofynnol i'r holl sefydliadau a reoleiddir ac/neu a gyllidir sefydlu siarter myfyrwyr. Amlinellwyd y gofyniad hwn yng Nghylchlythyr W11/31HE. Cafodd effaith y canllawiau ei monitro yn 2013 (cylchlythyr W13/27HE), a diweddarwyd y canllawiau mewn ymateb i'r ymarfer monitro yn 2014 (cylchlythyr W14/05HE). Cyhoeddwyd diwygiadau pellach yn 2017 (gweler cylchlythyr W17/19HE) a 2019 (gweler chylchlythyr W19/15HE).

3. Ym mis Rhagfyr 2021 cynhaliodd CCAUC ymgynghoriad, drwy gylchlythyr W21/41HE, ar newidiadau arfaethedig i'r canllawiau i'w gwneud yn ofynnol i Siarteri Myfyrwyr gynnwys gwybodaeth am ddiogelu fel y bo'n berthnasol i addysg uwch ddiogel a chynhwysol, yn ogystal â gwybodaeth bellach am iechyd a llesiant.

## Canlyniadau'r ymgynghoriad

4. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Chwefror 2022. Cawsom 10 ymateb i'r ymgynghoriad. Rhestrir yr ymatebwyr yn **Atodiad A**.

5. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi ein cynigion i ddiweddaru'r canllawiau, gyda rhai cafeatau. Cynigiodd yr ymatebwyr hefyd awgrymiadau am wybodaeth arall y dylid ei chynnwys yn y canllawiau ar Siarteri Myfyrwyr. Rydym wedi ystyried rhai o'r awgrymiadau hyn yn y canllawiau, a byddwn yn ystyried y gweddill mewn fersiynau pellach o'r canllawiau, fel bo'n briodol.

6. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi cael eu hadlewyrchu yn y canllawiau diwygiedig, a ddarperir yn **Atodiad B**.

7. Yng nghylchlythyr W21/41HE nodwyd y byddem yn adolygu iaith y canllawiau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hygyrch, yn enwedig i'r corff o fyfyrwyr. Un o'r prif bwyntiau a welwyd yn gyffredin drwy'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad oedd yr angen i'r canllawiau eu hunain fod yn ystyrlon i'r sefydliadau ac i'r corff o fyfyrwyr. Rydym yn cydnabod, dros amser, fod y canllawiau wedi cael eu hehangu i gynnwys nifer o ofynion penodol o ran yr wybodaeth y dylid ei chynnwys yn nogfennau'r Siarter Myfyrwyr. Rydym wedi adolygu'r canllawiau presennol a llunio cyfres o egwyddorion a disgwyliadau lefel uchel, sydd ar gael yn **Atodiad B**, y dylai sefydliadau ac undebau myfyrwyr roi ystyriaeth iddynt wrth adolygu'r Siarter Myfyrwyr. Dylai sefydliadau barhau i ddarparu dolenni i'r wybodaeth a oedd yn ofynnol yn flaenorol mewn Siarteri Myfyrwyr, ac mae hyn wedi'i amlinellu yn y canllawiau diwygiedig.

8. Dylai'r Siarter Myfyrwyr fod yn ddogfen wedi'i datblygu ar y cyd sy'n adlewyrchu anghenion y corff o fyfyrwyr a chyfeiriad strategol y sefydliad. Nid yw'n fwriad

gennym i'r siarter ddisodli polisïau sefydliadol allweddol na/neu dogfennau cyfreithiol.

<u>Ymatebion i'r ymgynghoriad</u>

9. Sylwadau cyffredinol:
   - roedd yr ymatebwyr yn falch o gael y cyfle i gymryd rhan yn yr ymarfer i ddatblygu canllawiau diwygiedig.
   - byddai angen cyfathrebu'n effeithiol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o'r canllawiau diwygiedig hyn.
   - awgrymodd un ymatebwr y byddai'n ddefnyddiol cynnal adolygiad cyfannol o ganllawiau Siarteri Myfyrwyr, er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n dal o gymorth i sefydliadau wella profiadau myfyrwyr.

<u>C1 Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n fuddiol i'r canllawiau ar siarteri myfyrwyr gynnwys gwybodaeth am ddiogelu, fel y bo'n berthnasol i addysg uwch ddiogel a chynhwysol? (10 ymateb)</u>

Cytuno: 4
Cytuno gyda chafeat: 5
Anghytuno: 1

- Ar y cyfan, roedd yr ymatebion o blaid cefnogi'r egwyddor o hyrwyddo addysg uwch ddiogel a chynhwysol mewn siarteri myfyrwyr, yn ogystal â gwybodaeth am ddiogelu.
- Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai defnyddio'r term 'diogelu' fod yn broblemus neu beri dryswch, gan fod y term yn cael ei ddefnyddio'n arferol wrth gyfeirio at bolisïau/darpariaeth gwasanaeth i blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed. Gan hynny, byddai eglurder ynghylch y defnydd o'r term 'diogelu' yn y cyd-destun hwn yn cael ei groesawu.
- Awgrymai un ymatebwr y gallai'r defnydd o'r term 'diogelu' yng nghyd-destun addysg uwch wrthdaro ag ymreolaeth ac annibyniaeth myfyrwyr fel oedolion, a gallai hefyd greu ansicrwydd ynghylch llinellau cyfrifoldeb yn gysylltiedig â dyletswydd gofal prifysgol. Yn yr un ymateb, awgrymwyd y dylai CCAUC gadw'r term 'diogelu' ar gyfer plant ac oedolion sy'n agored i niwed, ac y dylai unrhyw gyfeiriad at hynny yn y siarter myfyrwyr fod yn gymesur â'i berthnasedd i leiafrif o fyfyrwyr.
- Awgrymodd un ymatebwr y byddai cyfeiriad at ddyletswydd gofal prifysgol i “feithrin amgylcheddau diogel a chynhwysol” yn elfen werthfawr i'w chynnwys yn y siarter, gan gynnwys manylion am strategaethau a gwasanaethau'r brifysgol a oedd yn cefnogi amgylchedd diogel a chynhwysol i'r holl fyfyrwyr.
- Mewn un ymateb, mynegwyd pryder y byddai CCAUC yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau gyflawni mwy na'u dyletswydd gofal i bob myfyriwr yn ôl cyfraith gyffredin, gan ehangu ar y dyletswyddau cyfreithiol sydd ar hyn o bryd wedi'u cyfyngu i blant ac oedolion sy'n agored i niwed.
- Awgrymodd un ymatebwr y byddai canllawiau clir i sefydliadau ar faterion yn gysylltiedig â gwahaniaethu ac aflonyddu yn cynorthwyo sefydliadau i ddarparu gwybodaeth berthnasol mewn siarteri myfyrwyr.

- Roedd yr un ymatebwr yn awgrymu y dylai'r ymrwymiadau yn y siarter i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant anelu i fod yn gynhwysol, ac ystyried gofynion penodol yn hytrach na chynnwys datganiadau a oedd yn cyfeirio at gydraddoldeb 'waeth beth fo'r cefndir'. Byddai hynny'n adlewyrchu'r ffaith bod myfyrwyr wedi cael profiadau amrywiol oherwydd eu nodweddion gwarchodedig, gan ddangos nad oedd 'un ateb addas i bawb' 'waeth beth fo'r' nodweddion gwarchodedig yn aml yn ystyriol o brofiadau penodol pobl.
- Roedd un ymateb yn awgrymu ei bod yn bwysig amlygu bod amgylchedd diogel a chynhwysol yn rhan annatod o ddarpariaeth addysg uwch. Fodd bynnag, nid siarter myfyrwyr oedd y man priodol i ddarparu gwybodaeth, yn enwedig dolenni i bolisïau a gweithdrefnau, a byddai'n well canolbwyntio ar werthoedd a oedd yn dangos ymrwymiad i ddiogelwch a chynhwysiant.
- Awgrymodd un ymatebwr y byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth yn y canllawiau ar siarteri myfyrwyr am ddisgwyliadau CCAUC ynghylch yr hyn y dylid cyfeirio ato mewn perthynas â diogelu, a dylai'r canllawiau alluogi sefydliadau i addasu'r dull o gyflwyno'r wybodaeth, gan gydnabod y byddai pob siarter myfyrwyr yn cael ei hysgrifennu mewn fformat gwahanol.
- Er bod diogelu'n hanfodol ac yn bwysig i fyfyrwyr, mewn un ymateb awgrymwyd nad oedd y dull a gynigiwyd yn ffordd effeithiol o gyfleu wrth fyfyrwyr fod y mater y derbyn sylw priodol ar lefel sefydliadol.
- Awgrymodd un ymatebwr y byddai'r cynnig i ychwanegu gwybodaeth am ddiogelu o fudd i fyfyrwyr, gan y byddai'n eu galluogi i ddeall yn well y camau a gymerir gan sefydliadau i ddiogelu myfyrwyr, a'r prosesau sydd ar waith i gefnogi hyn.

10. **Casgliad:** Byddwn yn disgwyl i sefydliadau gyhoeddi datganiad lefel uchel o fewn y Siarter Myfyrwyr sy'n cadarnhau eu hymrwymiad i feithrin amgylcheddau diogel a chynhwysol fel rhan annatod o'u darpariaeth, a'r prosesau sydd ar waith i ddangos yr ymrwymiad hwn. Lle bo'n briodol, dylent gynnwys gwybodaeth am ddiogelu o safbwynt ymarferol, a dyletswydd gofal y sefydliad i'r corff o fyfyrwyr.

C2 Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n fuddiol i'r canllawiau ar siarteri myfyrwyr gynnwys gwybodaeth am iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl? (10 ymateb)

Cytuno: 6
Cytuno gyda chafeat: 3
Anghytuno: 1

- Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'n fuddiol i'r canllawiau ar siarteri myfyrwyr gynnwys gwybodaeth am iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael, a sut i gyrchu'r gefnogaeth honno.
- Awgrymodd un ymatebwr ei bod hi'n bwysig sefydlu dealltwriaeth glir o'r diffiniad 'iechyd meddwl', ac y byddai'n fuddiol i sefydliadau roi esboniad clir o'r math o gefnogaeth y gallai myfyrwyr ei disgwyl, yn ogystal â chyfyngiadau'r gefnogaeth honno.

- Yn yr un ymateb awgrymwyd y byddai'n bwysig i sefydliadau weithio i liniaru problemau a allai gael effaith negyddol ar lesiant myfyriwr, gan gynnwys llesiant pobl eraill yn y gymuned ehangach.
- Roedd un ymatebwr yn cytuno ei bod hi'n bwysig darparu'r wybodaeth dan sylw, ond y dylid dylunio'r siarter ar ffurf cyfres o ddisgwyliadau neu werthoedd, ac na fyddai'n addas defnyddio'r siarter i storio'r wybodaeth hon.
- I fod yn gynhwysol, awgrymodd un ymatebwr y byddai'n bwysig darparu dolenni perthnasol i wasanaethau cymorth i fyfyrwyr ar ystod o broblemau, yn hytrach na chanolbwyntio ar iechyd meddwl yn unig.
- Roedd un ymatebwr yn awgrymu y dylai'r canllawiau ar siarteri myfyrwyr fod yn seiliedig ar adborth gan sefydliadau ac undebau myfyrwyr, ac y dylent ganolbwyntio ar y math o berthynas yr oedd angen ei sefydlu rhwng myfyrwyr a'u sefydliadau er mwyn hwyluso ymgysylltiad, partneriaeth ddilys a chefnogaeth i gyflawni mewn amgylchedd diogel. Gallai hyn gynnwys hyrwyddo cymorth iechyd meddwl yn ogystal â diogelu fel thema gyffredinol ac ar wahân, yn hytrach nag ar ffurf gofyniad ychwanegol.

11. **Casgliad:** Byddwn yn disgwyl i sefydliadau gyhoeddi datganiad lefel yn y Siarter Myfyrwyr sy'n cadarnhau eu hymrwymiad i hyrwyddo iechyd a llesiant myfyrwyr, gan gynnwys cydnabyddiaeth briodol o rolau'r sefydliad a'r myfyriwr unigol er mwyn cefnogi iechyd a llesiant da.

<u>C3 A fydd cynnwys gwybodaeth am ddiogelu, fel y bo'n berthnasol i addysg uwch ddiogel a chynhwysol, neu iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl, yn creu canlyniadau anfwriadol? (10 ymateb)</u>

Bydd 4
Na fydd 4
Ddim yn berthnasol/dim ymateb: 2

- Awgrymodd un ymatebwr y gallai problemau godi'n gysylltiedig â chapasiti a hyfforddiant, yn ogystal â diffyg arbenigedd mewn senarios lle byddai'n ofynnol i sefydliadau ymwneud ag agweddau ehangach ar fywydau myfyrwyr.
- Yn yr un ymateb, croesawyd y cyfeiriad at egluro pa wasanaethau sydd ar gael gan asiantaethau trydydd sector, gan awgrymu y byddai'n hollbwysig sicrhau bod prosesau clir a ffiniau priodol ar waith i roi cymorth i fyfyrwyr, gan nodi'r gweithiwr cymorth proffesiynol neu'r gwasanaeth cymorth mwyaf priodol ar gyfer hynny.
- Mewn perthynas â phryder ynghylch y term diogelu, roedd un ymateb yn rhybuddio y gallai sefydliadau fod yn atebol pe bai digwyddiadau'n codi ac achosion cyfreithiol yn cael eu dwyn.
- Roedd yr un ymatebwr yn awgrymu y byddai'n bwysig cydnabod y byddai myfyrwyr yn profi ystod o emosiynau mewn ymateb i'r profiadau ac na ddylai sefydliadau geisio dadrymuso myfyrwyr, a rhoi'r argraff iddynt fod angen cymorth strwythuredig arnynt i ymdopi â'u bywyd o ddydd i ddydd. Roedd yr ymateb hwn hefyd yn awgrymu y dylid gofalu i osgoi creu'r argraff bod prifysgolion yn gwbl gyfrifol am unrhyw agweddau ar fywyd neu iechyd myfyriwr, ac y dylai siarteri myfyrwyr esbonio'n glir beth yw cyfrifoldebau

myfyrwyr o ran rheoli eu hiechyd meddwl a'u llesiant eu hunain, yn ogystal â chyfrifoldebau'r brifysgol o ran eu helpu i wneud hynny.

- Mewn un ymateb, awgrymwyd bod angen i sefydliadau esbonio'n glir beth oedd ffiniau'r mathau o wasanaethau cymorth proffesiynol yr oedd sefydliadau'n eu darparu. Dylai cyfeiriadau at iechyd meddwl fod yn glir, yn nhermau canolbwyntio ar ddarparu lleoliad sy'n cefnogi iechyd meddwl da gan annog her a thrylwyredd deallusol ar yr un pryd. Dylai unrhyw gyfeiriadau at wasanaethau cymorth proffesiynol a ddarperir ganolbwyntio ar rôl y gwasanaethau hynny wrth helpu dysgwyr i ymdopi ag argyfwng a chael gwared â rhwystrau i gyrhaeddiad a dysgu; byddai angen gwahaniaethu'n glir rhwng y cymorth a ddarperir gan sefydliadau i'r myfyrwyr a'r cymorth a ddarperir gan wasanaethau statudol ac/neu ymyraethau meddygol.
- Roedd un ymatebwr yn cytuno ei bod hi'n bwysig sicrhau bod sefydliadau'n darparu amgylcheddau diogel a chynhwysol, ond dywedai nad siarteri myfyrwyr oedd y man priodol i gynnwys yr wybodaeth honno.
- Mewn un ymateb awgrymwyd bod perygl i siarteri myfyrwyr ailadrodd y gwahanol bolisïau sydd gan sefydliadau, a allai ddrysu myfyrwyr a pheri i siarteri droi'n anhylaw.

12. **Casgliad**: Rydym wedi ystyried yr awgrymiadau ynghylch sut i wneud siarter myfyrwyr yn ddogfen fwy defnyddiol ac ystyrlon, a byddwn yn cryfhau'r gofyniad i'r siarter gynnwys gwybodaeth glir ynghylch rôl y sefydliad a'r corff o fyfyrwyr, a'u disgwyliadau y naill oddi wrth y llall. Byddwn yn ystyried yr awgrymiadau eraill yn fersiynau nesaf y canllawiau ar siarteri myfyrwyr, ac mewn canllawiau cysylltiedig i gefnogi profiadau myfyrwyr.

<u>C4 A ellid cyflwyno unrhyw ddiwygiadau eraill i'r canllawiau ar siarteri myfyrwyr a fyddai'n gwneud y canllawiau hynny'n fwy defnyddiol? (10 ymateb)</u>

Gellid 4
Na ellid 4
Ddim yn berthnasol/dim ymateb: 2

- Awgrymodd un ymatebydd y gallai fod yn fuddiol gofyn i sefydliadau ymrwymo i nodi myfyrwyr a oedd yn fwyaf 'mewn perygl' o deimlo nad oedd eu hamgylchedd addysgol yn ddiogel, a gweithio'n ddyfal i fynd i'r afael â hynny.
- Mewn un ymateb awgrymwyd y gallai'r canllawiau ar siarteri myfyrwyr gynnwys ffocws ar gynaliadwyedd, fel y bo'n berthnasol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gallai'r canllawiau hefyd hyrwyddo manteision economi gylchol, a'r ymrwymiad i sicrhau Sero Net.
- Mewn un ymateb awgrymwyd y dylid ysgrifennu siarteri myfyrwyr mewn iaith sy'n gyfeillgar â myfyrwyr, gan alluogi ymagwedd hyblyg i adlewyrchu'r poblogaethau amrywiol o fyfyrwyr mewn SAUau yng Nghymru.
- Awgrymodd un ymatebwr y byddai'n bwysig sicrhau bod y canllawiau ar siarteri myfyrwyr yn rhoi ystyriaeth i'r boblogaeth gyfan o fyfyrwyr.
- Roedd un ymateb yn awgrymu y dylai siarteri myfyrwyr ystyried anghenion darpar fyfyrwyr yn y dyfodol, gan ystyried tueddiadau a ragwelir. Dywedodd

yr ymatebwr hwn y dylai siarteri myfyrwyr fod ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys mewn ieithoedd eraill ar wahân i Saesneg, ac mewn Braille.

13. **Casgliad:** Byddwn yn cynnwys egwyddor lefel uchel yn y canllawiau y dylai'r siarter myfyrwyr ystyried nodau, ffyrdd o weithio ac egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Byddwn yn cadw'r gofyniad y dylai'r siarter roi ystyriaeth i'r boblogaeth gyfan o fyfyrwyr. Byddwn yn cryfhau'r cyfeiriad yn y canllawiau i sefydliadau sicrhau bod y siarter myfyrwyr yn hygyrch ac ar gael mewn amrywiaeth o fformatau.

<u>C5 Pa effaith (os o gwbl), boed hynny'n gadarnhaol neu'n niweidiol, y bydd y cynigion hyn yn ei chael ar:</u>

- <u>gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a</u>
- <u>pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg. (10 ymateb)</u>

Ddim yn berthnasol/dim ymateb: 6
Sylwadau: 4

- Rhoddodd pedwar ymatebwr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Ni chafwyd unrhyw ymateb gan yr ymatebwyr eraill.
- Ar y cyfan, ni nodwyd yn yr ymatebion unrhyw effeithiau cadarnhaol na niweidiol ar y Gymraeg yn sgil y cynigion, ar yr amod bod cymorth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mewn un ymateb awgrymwyd ei bod hi'n bwysig i fyfyrwyr allu cyfathrebu drwy eu dewis iaith, ac y byddai angen i sefydliadau sicrhau bod ganddynt gapasiti digonol i gefnogi hyn.
- Mewn un ymateb awgrymwyd y dylai myfyrwyr allu derbyn gwasanaethau cymorth llesiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

14. **Casgliad:** Byddwn yn cadw'r gofyniad i sefydliadau gyhoeddi datganiad lefel uchel ynghylch eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Disgwylir i hyn gynnwys y dulliau a ddefnyddir gan sefydliadau i hybu'r Gymraeg a chyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys ymgysylltu â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod y Siarter Myfyrwyr gyffredinol ar gael yn Gymraeg.

<u>C6 Sut y gellid newid y polisi er mwyn i'r penderfyniad o ran polisi gael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar:</u>

- <u>gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a</u>
- <u>pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg (10 ymateb)</u>

Ddim yn berthnasol/dim ymateb: 7
Dim newidiadau: 1
Awgrymiadau: 2

- Awgrymodd un ymatebwr y dylid cynnwys datganiad y dylai'r siarter fod ar gael yn Gymraeg.

- Awgrymodd un ymatebwr ei bod hi'n bwysig i'r canllawiau ar Siarteri Myfyrwyr gyfeirio at astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â dathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Byddai hyn hefyd o gymorth i fyfyrwyr ddeall pa gyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ryngweithio â'r brifysgol, a hefyd o gymorth i bobl ddi-Gymraeg werthfawrogi pwysigrwydd cael dewis iaith, gan gydnabod na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.

15. **Casgliad:** Gweler paragraffau 14.

<u>C7 A yw'r newidiadau a gynigir yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'n creu canlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio? (10 ymateb)</u>

Ydynt: 6
Nac ydynt: 2
Ddim yn berthnasol/dim ymateb: 2

- Nodwyd yn yr ymatebion y byddai'r effeithiau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFD) yn gadarnhaol, yn enwedig y nodau i sicrhau Cymru iachach a datblygu Cymru o gymunedau cydlynus, yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd iechyd, gwaith cydlynus a chydweithredol, y Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Nododd un ymatebwr y byddai'r cynigion yn ffordd well o gyfeirio pobl at wasanaethau a oedd eisoes yn ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a WBFD.
- Nododd un ymatebwr y byddai'r newidiadau'n cynorthwyo CCAUC i gydymffurfio â WBFD a chanllawiau i gyrff cyhoeddus.
- Awgrymodd un ymatebwr y gallai cynnwys cyfeiriad at gynaliadwyedd gael effaith gadarnhaol o ran WBFD.
- Nododd un ymatebwr fod y diwygiadau a gynigiwyd i sicrhau amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol yn atgyfnerthu ymrwymiad tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth, a nodau WBFD.
- Awgrymodd un ymatebwr y gellid cryfhau'r cyfeiriadau at bwysigrwydd cydnabyddiaeth a dealltwriaeth sefydliadau o groestoriadedd, ynghyd â chydnabod anghenion diogelu'r rhai a nodir y anneuaidd.
- Awgrymodd un ymatebwr y byddai'n fanteisiol darparu dolenni i bolisïau'r sefydliad o ran diogelu, trais yn erbyn menywod, trais domestig a cham-drin rhywiol, er mwyn codi ymwybyddiaeth a'i gwneud hi'n hawdd cael mynediad at gymorth.
- Yn yr un ymateb awgrymwyd y byddai gofyn i sefydliadau gynnwys datganiad eu bod yn ymrwymo i sicrhau llesiant myfyrwyr, gan gynnwys iechyd meddwl, ac i nodau llesiant WBFG, a darparu dolenni i wybodaeth bellach am strategaethau'r sefydliad yn y meysydd hynny, yn fodd i sicrhau bod sefydliadau'n ymrwymo i roi camau ar waith i wella llesiant myfyrwyr.

16. **Casgliad:** Byddwn yn gynnwys gofyniad i sefydliadau gyhoeddi datganiad i esbonio sut maent yn cefnogi iechyd a llesiant myfyrwyr, gan gynnwys dolenni i

wybodaeth bellach. Fel y nodir uchod, byddwn yn cynnwys cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn yn ystyried yr awgrymiadau eraill yn fersiynau nesaf y canllawiau.

## Y camau nesaf

17. Dylid ystyried y canllawiau diwygiedig yn Atodiad B yn rhan o'r broses flynyddol i adolygu'r siarter myfyrwyr. Dylai'r sefydliad a'r corff o fyfyrwyr gynnal yr adolygiad hwnnw mewn partneriaeth, ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 a thu hwnt. Os bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr fel y grŵp cynrychioliadol, dylai swyddogion sabothol sicrhau eu bod yn gallu cynrychioli safbwyntiau'r corff amrywiol o fyfyrwyr wrth drafod ac argymell newidiadau i'r Siarter, gan roi ystyried i safbwyntiau'r myfyrwyr a gweithio gyda chynrychiolwyr y myfyrwyr fel bo'n briodol. Dylai sefydliadau sicrhau bod y siarter myfyrwyr yn seiliedig ar ystod o safbwyntiau gan staff a myfyrwyr, a bod aelod uwch o'r staff yn goruchwylio'r broses.

18. Yn rhan o'r broses adolygu dylid hefyd ystyried gweledigaeth a phwrpas ar gyfer cynnwys dysgwyr a phartneriaeth â myfyrwyr, a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru a CCAUC ar y cyd â sefydliadau partner ac mewn ymgynghoriad â grwpiau myfyrwyr a chynrychiolwyr y sector.

19. Gofynnir i sefydliadau anfon cadarnhad i quality@hefcw.ac.uk erbyn **1 Hydref 2022** fod y siarter myfyrwyr wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r canllawiau newydd.

20. Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu sefydliadau roi sicrwydd blynyddol eu bod wedi derbyn copi o'r siarter myfyrwyr a'r cytundeb perthynas â myfyrwyr yn rhan o'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru. Dylid ystyried y canllawiau newydd yn rhan o'r broses hon.

## Rhagor o wybodaeth / ymatebion i:

21. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Nicola Hunt (029 2085 9735; nicola.hunt@hefcw.ac.uk).

## Asesu effaith ein polisïau

22. Rydym wedi cynnal asesiad effaith er mwyn helpu i amddiffyn rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

23. Mae'r canllawiau ar Siarteri Myfyrwyr yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gynnwys gwybodaeth yn y Siarter sy'n berthnasol i'r corff amrywiol o fyfyrwyr, gan gynnwys myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig. Rydym hefyd wedi cynnwys

disgwyliad y dylai'r siarter ystyried nodau, ffyrdd o weithio ac egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

24. Rydym wedi cadw'r gofyniad i Siarteri Myfyrwyr ddarparu gwybodaeth ynghylch sut mae'r sefydliad yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, gan roi ystyriaeth i Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Atodiad A**

**Ymatebwyr**

Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Grŵp Llandrillo Menai
Grŵp NPTC
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
Prifysgol De Cymru
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Cylchlythyr CCAUC W22/20HE: Atodiad B

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Canllawiau Siarteri Myfyrwyr

## Gorffennaf 2022

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

www.hefcw.ac.uk
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau diwygiedig ar lunio ac adolygu Siarteri Myfyrwyr. Mae'n berthnasol i bob sefydliad a reoleiddir gan CCAUC neu a gyllidir gan CCAUC yng Nghymru.

2. Yn y canllawiau rydym wedi nodi cyfres o egwyddorion y dylai sefydliadau, Undebau Myfyrwyr a'r corff myfyrwyr eu hystyried wrth adolygu'r Siarter Myfyrwyr. Rydym hefyd wedi amlinellu ein disgwyliadau ar gyfer defnyddio'r Siarter Myfyrwyr yn ymarferol, gan gynnwys goruchwylio proses adolygu'r Siarter.

3. Bydd angen i Sefydliadau ac Undebau Myfyrwyr roi ystyriaeth i'r canllawiau hyn yn eu Siarteri Myfyrwyr o flwyddyn academaidd 2022/23 ymlaen.

## Diben ac Egwyddorion

4. Mae'n ofynnol i bob sefydliad a reoleiddir yng Nghymru sefydlu Siarter Myfyrwyr yn rhan o Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru. Mae'n ofynnol i sefydliadau a gyllidir hefyd sefydlu Siarteri Myfyrwyr, a bodloni'r disgwyliadau a bennir gan CCAUC yn y Telerau ac Amodau ar gyfer cyllid.

5. Dylai'r Siarter Myfyrwyr nodi disgwyliadau, hawliau a chyfrifoldebau sefydliadau a'u myfyrwyr y naill i'r llall. Dylai'r rheiny fod wedi'u cynllunio i gefnogi profiad dysgu'r myfyriwr, gan gynnwys dolenni priodol i wybodaeth bellach, Nid yw’n ddogfen gyfreithiol, ac ni ddylid ei defnyddio ychwaith fel storfa ar gyfer polisïau a gweithdrefnau allweddol y sefydliad.

6. Dylai'r Siarter Myfyrwyr fod yn ddogfen lefel uchel sy'n berthnasol i'r corff amrywiol o fyfyrwyr ac sy'n ystyriol o anghenion y myfyriwr unigol, gan gynnwys y rhai hynny â nodweddion gwarchodedig. Dylai gynnwys cyfeiriadau a dolenni i wybodaeth fanylach, fel rheoliadau, cymorth i fyfyrwyr a gwybodaeth am gyrsiau.

7. Datblygwyd y canllawiau ar Siarteri Myfyrwyr yn wreiddiol i ystyried canlyniadau'r Grŵp Siarteri Myfyrwyr (GSM) yn Lloegr, a luniodd adroddiadau ac argymhellion ar gyfer llunio Siarteri Myfyrwyr ym mis Ionawr 2011[1]. Rydym yn parhau i gymeradwyo argymhellion y GSM, ac wedi adlewyrchu'r rhain mewn cyfres o egwyddorion ar gyfer llunio Siarteri Myfyrwyr, a amlinellir isod:

8. Dylai Siarter Myfyrwyr:
   - fod yn ddogfen ystyrlon sy'n gyson â chyfeiriad strategol y sefydliad ac anghenion myfyrwyr unigol
   - cael ei lunio drwy bartneriaeth rhwng y sefydliad a'r corff o fyfyrwyr, ac adlewyrchu natur yr ymagwedd partneriaeth rhwng myfyrwyr, staff a sefydliadau yng Nghymru
   - cael ei llywio gan safbwyntiau myfyrwyr a staff o bob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys rhai sy'n astudio gyda phartneriaid drwy drefniadau is-gontractio

[1] Grŵp Siarter Myfyrwyr: adroddiad terfynol (www.gov.uk)

- cyfleu'n glir beth yw disgwyliadau, rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau a'r corff o fyfyrwyr, y naill i'r llall
- cynnwys holl fyfyrwyr y sefydliad, gan gynnwys rhai sy'n astudio gyda phartneriaid drwy drefniadau is-gontractio
- bod yn hygyrch i fyfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr, gan gynnwys ystod o fformatau, a dylid cyfathrebu yn ei chylch wrth yr holl fyfyrwyr ym mhob lleoliad, gan gynnwys darparwyr partner, er mwyn sicrhau bod yr holl gorff o fyfyrwyr yn ymwybodol ohoni
- cyfeirio myfyrwyr i'r wybodaeth briodol a fydd yn cefnogi eu profiad dysgu
- ystyried nodau, ffyrdd o weithio ac egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

**Disgwyliadau**

9. Amlinellir ein disgwyliadau ar gyfer llunio, adolygu a defnyddio Siarteri Myfyrwyr isod. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a gellir ei diwygio yn y dyfodol wrth i anghenion newid.

10. Rydym yn cadw'r hawl i ymgysylltu â sefydliadau ac Undebau Myfyrwyr ynghylch eu defnydd o Siarteri Myfyrwyr, yn unol â'n hymagwedd reoleiddio ac yn rhan o'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.
    - Adolygir y Siarter Myfyrwyr yn flynyddol. Os bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr fel y grŵp cynrychioliadol, dylai swyddogion sabothol sicrhau eu bod yn gallu cynrychioli safbwyntiau'r corff amrywiol o fyfyrwyr wrth drafod ac argymell newidiadau i'r Siarter, gan roi ystyried i safbwyntiau'r myfyrwyr a gweithio gyda chynrychiolwyr y myfyrwyr fel bo'n briodol. Dylai sefydliadau gefnogi myfyrwyr a swyddogion sabothol fel eu bod yn gallu gwneud hyn.
    - Dylai'r corff llywodraethu roi sicrwydd yn flynyddol i CCAUC fod y Siarter Myfyrwyr wedi cael ei hadolygu.
    - Bydd yn rhaid i'r uwch dîm rheoli ymwneud â llunio'r Siarter Myfyrwyr a'r broses o'i hadolygu.
    - Dylai sefydliadau addysg uwch gael un ddogfen sy'n cwmpasu yr holl sefydliad a'r corff o fyfyrwyr, gan gynnwys rhai sy'n dilyn astudiaethau AU gyda sefydliadau partner, fel sefydliadau addysg bellach.
    - Dylai sefydliadau addysg bellach (SABau) a reoleiddir neu a gyllidir lunio eu Siarteri Myfyrwyr eu hunain i'w myfyrwyr AU. Dylai SABau sy'n cynnig darpariaeth is-gontractiol sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o Siarter Myfyrwyr y SAU sy'n berthnasol iddynt hwy yn ystod eu cyfnod yn astudio gyda'r sefydliad.
    - Dylai'r sefydliad ac Undeb y Myfyrwyr hyrwyddo'r Siarter Myfyrwyr ymhlith y corff o fyfyrwyr.
    - Dylai'r Siarter Myfyrwyr fod yn ddogfen fer a chryno, a chynnwys datganiadau lefel uchel ynghylch y canlynol:
        - ymrwymiad y sefydliad i feithrin amgylcheddau diogel a chynhwysol fel rhan annatod o'i ddarpariaeth;
        - ymrwymiad y sefydliad i sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth;

  - ymrwymiad y sefydliad i hyrwyddo iechyd a llesiant myfyrwyr, gan gynnwys iechyd meddwl a chefnogi ymagweddau sy'n fwy diogel rhag hunanladdiad;
  - sut mae'r sefydliad yn mynd i'r afael â'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, gan roi ystyriaeth i Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo astudio drwy gyfrwng y Gymraeg;
  - ymgysylltiad y sefydliad â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan gynnwys dolen i wefan y Coleg;
  - sut y caiff buddiannau myfyrwyr eu gwarchod, ee, mewn achosion lle bydd cwrs neu sefydliadau yn peidio â bod;
  - cadarnhad bod y sefydliad yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o dan gyfraith diogelu defnyddwyr, fel y nodir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, gan gynnwys darparu gwybodaeth am gostau astudio;
  - sut y gall myfyrwyr gwyno am faterion academaidd, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw gymorth ynghylch cwynion, ac ynghylch cyfeirio materion i sylw'r Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a CCAUC, fel bo'n briodol.
- Lle bo'n briodol, dylai'r Siarter gynnwys dolenni i wybodaeth bellach, a disgwylir i'r wybodaeth honno gynnwys y canlynol fel isafswm:
  - Y prosesau sydd ar waith sy'n dangos ymrwymiad i feithrin amgylcheddau diogel a chynhwysol;
  - Strategaeth iechyd a llesiant diweddar y sefydliad, ynghyd a gwybodaeth bellach am y cymorth sydd ar gael a sut i'w gyrchu, gan gynnwys cyfeiriad at gyrff y trydydd sector lle bo'n briodol;
  - Gwybodaeth am sut y gall myfyrwyr gael cymorth ariannol;
  - Cyfeirio myfyrwyr at wybodaeth am gyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg (ee, ar dudalennau cwrs);
  - Gwybodaeth am gyfleoedd, lle bo'n briodol, i asesu perfformiad myfyrwyr yn Gymraeg, waeth beth fo'r iaith addysgu;
  - Cyfeirio myfyrwyr at wybodaeth am gyfleoedd astudio neu leoliadau byd-eang, neu gynlluniau eraill a gynigir gan y sefydliad.